# Polisi sancsiynau

2 Mawrth 2026

# Cynnwys


Ynglŷn â'r polisi 5

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth** 6

**Diben sancsiynau** 7

**Sancsiynau a gorchmynion sydd ar gael i'r panel** 8

**Rhesymau dros benderfyniad i osod sancsiwn** 9

Elfennau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sancsiynau 10

**Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg** 10

**Egwyddorion cymesuredd** 10

Pwyso a mesur gorchmynion interim sy'n bodoli eisoes 11

Asesu difrifoldeb 12

Asesu bai 13

**Elfennau lliniarol** 14

Mewnwelediad 15

Edifeirwch 16

Ymddiheuriad 17

Camau cywiro 17

**Elfennau sy'n gwaethygu pethau** 19

Torri ymddiriedaeth 19

Ailadrodd pryderon / patrwm o ymddygiad annerbyniol 20

Diffyg mewnwelediad 20

Diffyg camau cywiro 21

Niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau / niwed potensial i ddefnyddwyr gwasanaethau 21

**Adnabod achosion difrifol** 21

Anonestrwydd 22

Methiant i fynegi pryderon 23

Methiant i weithio mewn partneriaeth 23

Gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill 24

Mynd y tu hwnt i ffiniau proffesiynol 26

Rhai sy'n agored i niwed 27

Camymddygiad rhywiol a chamymddygiad â chymhelliant rhywiol 28
Cam-drin plant yn rhywiol 29
Troseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant 29
Cronfa ddata troseddwyr rhyw 29
Euogfarnau a rhybuddion troseddol 29
Dedfrydau cymunedol 30
Trais 31

Sancsiynau sydd ar gael i'r panel 32

**Penderfynu pa sancsiwn sy'n briodol 32**

**Dim gweithredu 32**

**Gorchymyn rhybuddio 33**
Beth yw gorchymyn rhybuddio? 33
Pryd mae gorchymyn rhybuddio yn briodol? 33
Am faint o amser dylid gosod gorchymyn rhybuddio? 34

**Gorchymyn amodau ymarfer 34**
Beth yw gorchymyn amodau ymarfer? 34
Pryd mae gorchymyn amodau ymarfer yn briodol? 34
Pryd gallai gorchymyn amodau ymarfer fod yn amhriodol? 35
Pa ystyriaethau ddylai gael sylw wrth lunio amodau? 35
Am faint o amser dylai gorchymyn amodau ymarfer gael ei osod? 37

**Gorchymyn gwahardd dros dro 37**
Beth yw gorchymyn gwahardd dros dro? 37
Pryd mae gorchymyn gwahardd dros dro yn briodol? 37
Am faint o amser dylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro? 38

**Gorchymyn diarddel 39**
Beth yw gorchymyn diarddel? 39
Pryd mae gorchymyn diarddel yn briodol? 39

**Gorchmynion interim i gwmpasu'r cyfnod apelio 40**
Beth yw gorchymyn interim i gwmpasu'r cyfnod apelio? 40
Pryd mae gorchymyn interim yn briodol i gwmpasu'r cyfnod apelio? 41

**Sancsiynau niferus** **41**

**Gwrandawiadau adolygu** **43**

# Ynglŷn â'r polisi

## Diben y polisi

1. Mae polisi sancsiynau y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn amlinellu'r egwyddorion y dylai Panel Pwyllgor Ymarfer (y 'panel')[1] eu hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei orfodi mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Bwriedir iddo sicrhau bod penderfyniadau yn deg, yn gyson, ac yn dryloyw, a bod sancsiynau'n ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd ac i hyrwyddo a chynnal safonau priodol a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio gan yr HCPC.

2. Bydd y paneli yn ystyried pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei orfodi yn ystod gwrandawiad terfynol ac yn dilyn canfyddiad bod rhywbeth wedi amharu ar addasrwydd i ymarfer unigolyn cofrestredig. Erbyn y cam sancsiynu, bydd panel eisoes wedi ystyried y ffeithiau, y sail a natur yr amhariad[2] yn yr achos, gan ysgrifennu rhesymau llawn dros y penderfyniadau a wnânt ar bob cam.[3]

3. Mae paneli yn gwneud penderfyniadau annibynnol a rhaid iddynt penderfynu ar bob achos yn unigol. Rhaid i'r paneli gyfeirio at rannau perthnasol y polisi sancsiynau hwn a chofnodi'r rhesymeg sy'n sail i'w penderfyniad yn y canlyniad a gyhoeddir.

4. Mae Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 ('Gorchymyn 2001') yn rhoi'r awdurdod i'r HCPC orfodi sancsiynau, megis amodau ymarfer, gwahardd dros dro neu dynnu rhywun oddi ar gofrestr y gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol (y 'Gofrestr'), er mwyn diogelu'r cyhoedd, cynnal safonau proffesiynol, a chadw hyder yn y proffesiynau a reoleiddir.

5. Mae'r polisi hwn yn cynnwys yr egwyddorion y dylai paneli eu hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei orfodi. Mae'n darparu manylion am:

   - egwyddorion cymesuredd;
   - elfennau lliniarol;

[1] Mae hyn yn cyfeirio at Banel Pwyllgor Ymarfer Gwasanaeth Tribiwnlysoedd y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPTS), sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn ag achosion disgyblu ac addasrwydd i ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal. Mae'n ystyried tystiolaeth, yn gwrando ar bobl yn rhoi testimoni, ac yn asesu a yw ymddygiad, galluogrwydd, neu iechyd gweithiwr proffesiynol yn effeithio ar eu gallu i ymarfer yn ddiogel ac i fodloni'r safonau gofynnol. Ar sail ei ganfyddiadau, bydd y panel yn penderfynu a oes angen unrhyw sancsiynau.

[2] HCPTS| Amhariad ar Addasrwydd i Ymarfer

[3] Mae paneli yn gwneud penderfyniadau annibynnol a rhaid iddynt penderfynu ar bob achos yn unigol. Rhaid i'r paneli gyfeirio at rannau perthnasol y polisi sancsiynau hwn a chofnodi'r rhesymeg sy'n sail i'w penderfyniad yn y canlyniad a gyhoeddir.

- elfennau sy'n gwaethygu pethau;
- adnabod achosion difrifol;
- y sancsiynau sydd ar gael i'r panel; a
- gwrandawiadau adolygu.

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

6. Mae'r HCPC wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhopeth a wnawn. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y 'Ddeddf Cydraddoldeb'), mae gan yr HCPC rwymedigaethau statudol i sicrhau bod prosesau ar gyfer ymdrin â phryderon ynglŷn ag unigolion cofrestredig yn deg, yn dryloyw ac yn gynhwysol. Mae'r polisi hwn yn cynorthwyo'r HCPC i gadw at yr ymrwymiad hwnnw.

7. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r HCPC yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb sydd yn weithredol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae ein canllawiau a'n ffyrdd o weithio yn gyson hefyd â'r ddyletswydd awdurdodau cyhoeddus dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.[4]

8. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion hynny yw:
    - oedran;
    - anabledd;
    - ailbennu rhywedd;
    - priodasau a phartneriaethau sifil;
    - beichiogrwydd a mamolaeth;
    - hil;
    - crefydd neu gredo;
    - rhyw; a
    - chyfeiriadedd rhywiol.

9. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys dyletswyddau cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r HCPC roi sylw dyledus i'r angen i:

[4] Er nad ydym wedi'n rhestru fel awdurdod cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth berthnasol, rydym wedi ymrwymo i'r ddyletswydd awdurdodau cyhoeddus a amlinellir yn Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Gweler: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Yr HCPC.

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiadau eraill a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd yn rhannu nodweddion gwarchodedig a rhai nad ydynt; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt.

10. Disgwylir i baneli ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr HCPC neu Wasanaeth Tribiwnlysoedd y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPTS) gadw at ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Dylai paneli gadw hynny mewn cof wrth wneud **pob** penderfyniad. Dylent sicrhau bod eu penderfyniadau yn deg, yn gyson, yn ddiduedd ac yn gymesur.

11. Dylai paneli gadw mewn cof hefyd y gall gwahaniaethau diwylliannol a niwroamrywiaeth effeithio ar y ffordd y bydd unigolyn cofrestredig yn ymwneud â'r ymchwiliad i'w hymddygiad, ac unrhyw wrandawiad. Dylai paneli felly ystyried ffactorau diwylliannol a niwroamrywiaeth posibl a allai fod wedi dylanwadu ar ymgysylltiad yr unigolyn cofrestredig wrth ystyried sancsiwn.[5]

## Diben sancsiynau

12. Diben sancsiwn ydy gweithredu yn y modd sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal safonau a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Gosodir sancsiynau ar ddiwedd ein proses addasrwydd i ymarfer yn dilyn canfyddiad bod ymddygiad, galluogrwydd, euogfarn droseddol, iechyd, neu benderfyniad gan reoleiddiwr arall wedi syrthio islaw safonau derbyniol ac, o ganlyniad, y canfyddwyd bod rhywbeth wedi amharu ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer.

13. Prif swyddogaeth unrhyw sancsiwn ydy amddiffyn y cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys ystyried:
    - unrhyw risgiau y gallai'r unigolyn cofrestredig eu peri i'r rhai sy'n defnyddio neu sydd angen eu gwasanaethau;
    - yr effaith yn rhwystro unigolion cofrestredig eraill rhag gwneud rhywbeth tebyg;
    - hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio; a
    - hyder y cyhoedd yn y broses rheoleiddio.

14. Dylai sancsiynau gael eu teilwra yn ôl amgylchiadau penodol pob achos, gan gydbwyso diogelu'r cyhoedd â budd y cyhoedd yn ehangach. Dim ond mewn

[5] Er enghraifft, sut maent yn mynegi ymddiheuriad.

perthynas â'r ffeithiau y canfyddir eu bod wedi'u profi y dylid gosod sancsiynau a dylent fynd i'r afael â'r holl ffeithiau hynny sydd wedi arwain at ganfyddiad bod amhariad.

15. Mae pum sail statudol i amhariad:

- camymddwyn;
- diffyg galluogrwydd;
- euogfarn neu rybuddiad yn y Deyrnas Unedig am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, petai wedi'i chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn cael ei hystyried yn drosedd;
- iechyd corfforol neu feddyliol;[6] neu
- penderfyniad gan reoleiddiwr arall.

16. Rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gofrestredig gyda'r HCPC gadw at y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, a'r safonau hyfedredd perthnasol. Pan fydd pryderon difrifol wedi'u mynegi ynglŷn â methiant unigolyn cofrestredig i weithio yn unol â'r safonau hyn, gellir cyfeirio'r pryderon hynny at un o baneli'r HCPTS.

17. Dim ond os byddant wedi canfod bod addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer wedi'i amharu ar y pryd y gall panel osod sancsiwn. Erbyn y cam hwnnw, bydd y panel wedi clywed tystiolaeth a chyflwyniadau ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd ac unrhyw gamau y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'u cymryd i adfer pethau. Gall y panel dderbyn tystiolaeth bellach a chlywed cyflwyniadau pellach ar ôl canfod bod amhariad a chyn penderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, i'w orfodi.

18. Nid cosbi unigolion cofrestredig ydy bwriad sancsiynau, ond sicrhau y caiff y cyhoedd eu diogelu a chynnal safonau a hyder yn y proffesiwn. Mae'n anorfod y gall sancsiwn gael effaith sy'n cosbi, ond ni ddylid gosod sancsiwn at y diben hwnnw.

## Sancsiynau a gorchmynion sydd ar gael i'r panel

19. Mae'r sancsiynau a'r gorchmynion canlynol wedi'u hamlinellu yn Erthygl 29 Gorchymyn 2001:

- cyfryngu;[7]

---

[6] Dylai paneli ddilyn Nodyn Ymarfer HCPTS ar Honiadau Iechyd wrth ganfod amhariad ar sail iechyd: HCPTS | Pryderon Iechyd.

[7] Er bod cyfryngu yn ein deddfwriaeth dan Erthygl 29, nid yw'n cael ei ystyried yn sancsiwn. Ceir canllaw ar wahân i gyfryngu ar ffurf Nodyn Ymarfer.

- dim gweithredu;
- rhybudd;
- amodau ymarfer;
- gwaharddiad;
- diarddel.

### Rhesymau dros benderfyniad i osod sancsiwn

20. **Ar bob cam yn y broses o wneud penderfyniadau**, rhaid i'r paneli roi rhesymau dros y penderfyniadau a wnânt. Rhaid i'r paneli:

    - ddarparu rhesymeg eglur a manwl i gefnogi eu penderfyniad – rhaid iddynt amlinellu sut y maent wedi ystyried y sancsiynau sydd ar gael iddynt mewn trefn gynyddol o ran eu heffaith cyfyngol a sut maent wedi asesu difrifoldeb y pryderon a fynegwyd, gan gynnwys y ffactorau sy'n gwaethygu ac yn lliniaru'r sefyllfa;
    - egluro pam mai'r sancsiwn a osodwyd ganddynt ydy'r un mwyaf cymesur a phriodol a pham nad oedd angen sancsiynau llai cyfyngol na rhai mwy cyfyngol;
    - dangos eu bod wedi ystyried effeithiau posib y sancsiwn ar yr unigolyn cofrestredig;
    - sicrhau bod y sancsiwn yn gyson â'r canfyddiadau a wnaed ganddynt ar y camau sail statudol ac amhariad; a
    - sicrhau y caiff canlyniad pob achos, ynghyd â'r rhesymau dros benderfyniadau, eu cyhoeddi ar wefan yr HCPTS.[8]

[8] Yn unol â gofynion Gorchymyn 2001, rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn â sancsiwn gael ei gyhoeddi ar wefan yr HCPTS ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.

# Elfennau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sancsiynau

21. Pan fydd panel wedi dod i ganfyddiad bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer wedi'i amharu, dylai'r paneli ystyried holl elfennau perthnasol yr achos, gan gynnwys lle bydd unigolyn wedi methu â chydymffurfio â'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, holl egwyddorion perthnasol cymesuredd, ac achosion difrifol.

## Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg

22. Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yr HCPC ydy'r safonau rydym yn eu gosod ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr, gan ddatgan ein disgwyliadau o ran eu hymddygiad.

23. Mae'n bwysig bod paneli yn cadw'r safonau mewn cof wrth orfodi sancsiynau a'u bod yn cyfeirio at y safonau yn eu rhesymau. Efallai mai'r cyfan fyddai ei angen yn hyn o beth fyddai i'r panel gyfeirio at eu proses o wneud penderfyniad mewn cam blaenorol, er enghraifft pam y gwnaeth y panel ganfod camymddygiad. Mae'r safonau'n amlinellu bod rhaid i unigolion cofrestredig:

- hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr;
- cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol;
- gweithio o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth a'u sgiliau;
- dirprwyo'n briodol;
- parchu cyfrinachedd;
- rheoli risgiau;
- adrodd am bryderon ynglŷn â diogelwch;
- bod yn agored pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le;
- bod yn onest a meithrin ymddiriedaeth; a
- chadw cofnodion o'u gwaith.

## Egwyddorion cymesuredd

24. Wrth wneud penderfyniadau cymesur ynglŷn â sancsiynau, mae angen i'r paneli daro cydbwysedd rhwng buddiannau'r unigolyn cofrestredig ac amcan gyffredinol yr HCPC o ddiogelu'r cyhoedd. Yn ogystal, mae budd i'r cyhoedd o gadw unigolion cofrestredig ar y Gofrestr a chaniatáu iddynt ymarfer, ond dim ond pan fydd y panel yn fodlon y gallant wneud hynny'n ddiogel heb gyfyngiad (neu gydag amodau lle bo angen) a lle nad oes angen i unigolyn cofrestredig gael eu gwahardd neu eu diarddel er budd y cyhoedd. Felly, dylai sancsiynau

adlewyrchu natur a difrifoldeb y pryder a fynegwyd, a dylent fod yn deg, yn gyfiawn ac yn rhesymol.

25. Dylai penderfyniad ysgrifenedig y panel esbonio'n glir pam mae angen y sancsiwn o ystyried holl ffeithiau'r achos a'r risgiau cysylltiedig.

26. Dylai ei gwneud yn eglur hefyd pa broses a ddilynodd y panel, drwy ystyried pob sancsiwn sydd ar gael yn eu tro, yn yr un drefn ag y gwnaeth y panel asesu eu haddasrwydd.

27. Dylai'r paneli egluro pam y maent wedi diystyru un sancsiwn cyn symud ymlaen at sancsiwn mwy cyfyngol ac amlinellu pam nad yw'r sancsiwn llai cyfyngol yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd a/neu buddiannau'r cyhoedd.

28. Lle bo'n berthnasol, dylent egluro hefyd pam nad oes angen y sancsiwn nesaf, mwy cyfyngol er mwyn diogelu'r cyhoedd a/neu buddiannau'r cyhoedd, o ystyried amgylchiadau penodol yr achos.

29. Wrth benderfynu ar sancsiwn cymesur, dylai'r paneli ystyried pob agwedd sydd yn berthnasol i'r achos, a'r cyfuniad o'r agweddau hynny, gan sicrhau eu bod yn cael eu hasesu'n iawn ac yn cael y pwysoliad priodol. Ymhlith yr agweddau hynny, mae (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**):

- bodolaeth gorchymyn interim eisoes;
- difrifoldeb yr achos;
- i ba raddau mae'r unigolyn cofrestredig ar fai;
- unrhyw elfennau lliniarol, a phob un ohonynt os oes rhai; ac
- unrhyw elfennau sy'n gwaethygu pethau, a phob un ohonynt os oes rhai.

30. Rhaid i'r paneli roi ystyriaeth briodol i'r holl elfennau lliniarol, ond rhaid cadw mewn cof hefyd bod cyfraith achosion wedi sefydlu bod enw da'r proffesiwn yn bwysicach na hynt unrhyw aelod unigol.

31. Rhaid i'r paneli sicrhau y caiff yr holl ffactorau hyn eu cofnodi'n llawn ym mhenderfyniad ysgrifenedig y panel.

**Pwyso a mesur gorchmynion interim sy'n bodoli eisoes**

32. Wrth iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â sancsiwn, mae'n bosib y caiff y panel wybod bod yr unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim tra roedd yr HCPC yn ymchwilio i'r pryderon. Dylai'r panel feddwl am yr effaith y gallai hynny ei gael ar yr unigolyn cofrestredig. Mae'r ffaith y bu unigolyn cofrestredig eisoes yn destun gorchymyn interim, ac am ba mor hir, yn ffactorau cefndirol perthnasol wrth benderfynu beth fyddai'n sancsiwn cymesur.

33. Er enghraifft, os bydd unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim, mae'n bosib mai cyfyngedig fu'r cyfle iddynt fynd i'r afael â'r agweddau yn eu hymarfer sydd wedi disgyn islaw'r safonau. Yn yr un modd, os na fydd unigolyn cofrestredig wedi cydymffurfio'n llawn â gorchmynion interim, gallai cwestiynau godi mewn perthynas â'u dealltwriaeth, eu hagwedd tuag at broffesiynoldeb, a pha mor debygol ydynt o gydymffurfio ag unrhyw sancsiwn.

34. Mae diben gorchmynion interim yn wahanol ac ar wahân i sancsiynau. Diben gorchmynion interim ydy rhoi mesurau diogelu interim yn eu lle i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd, gan gynnwys diogelu'r cyhoedd, tra bydd pryderon ynglŷn ag addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer yn parhau heb eu datrys. Felly, mesur dros dro ydy gorchymyn interim, sy'n cael ei ddefnyddio i reoli neu fynd i'r afael â risg.

35. Nid yw penderfyniad ynglŷn â gorchymyn interim yn seiliedig ar ganfyddiad ffeithiol. Mae'r ffactorau risg a ystyrir ar gyfer gorchymyn interim yn wahanol i'r meini prawf a ystyrir gan y panel pan fyddant yn penderfynu ar sancsiwn priodol i ymarfer unigolyn cofrestredig. Felly, ni ddylai panel osgoi rhoi gormod o bwys ar sefyllfa unigolyn cofrestredig o safbwynt bod yn destun gorchymyn interim ai peidio neu hyd gorchymyn o'r fath. Yn yr un modd, nid yw'r ffaith nad yw unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim yn ystod achos addasrwydd i ymarfer yn golygu na ddylid gosod sancsiwn cyfyngol pan fydd hynny'n briodol.

36. Byddai'n anghywir i banel fynd ati'n syml i dynnu'r amser y bu unigolyn cofrestredig dan gyfyngiadau neu waharddiad yn flaenorol dan orchymyn interim o'r sancsiwn o sylwedd y gallai'r panel fod yn ystyried ei osod. Gallai gwneud hynny roi cleifion dan risg o gael eu niweidio, petai'r cyfnod a dreuliwyd yn destun gorchymyn interim yn cael ei dynnu heb ystyriaeth o'r cyfnod a fyddai fel arall yn briodol ar gyfer y sancsiwn. Gallai penderfyniad o'r fath olygu na fyddai'r gorchymyn o sylwedd yn ddigonol ar gyfer cyflawni ei ddiben yn cynnal y safonau a diogelu'r cyhoedd.

### Asesu difrifoldeb

37. Mae angen i'r paneli asesu difrifoldeb, gan gynnwys elfennau lliniarol ac elfennau sy'n gwaethygu pethau, ar gamau gwahanol yn ystod eu proses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys pan fyddant yn penderfynu ynglŷn ag amhariad ac yn penderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, i'w osod a hyd y sancsiwn hwnnw. Dylai'r paneli asesu difrifoldeb yn ôl amcanion statudol yr HCPC i ddiogelu'r cyhoedd ac i hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau ac yn safonau proffesiynol ac ymddygiad priodol unigolion cofrestredig.

38. Mae unrhyw risg sy'n parhau i ddefnyddwyr gwasanaethau neu i ddiogelwch y cyhoedd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer pob un o'r amcanion hynny. Pan fydd unigolyn cofrestredig yn creu risg sy'n parhau, rhaid i'r paneli fynd i'r afael â'r risg hwnnw, gan fod hyder y cyhoedd yn debygol o gael ei danseilio oni bai bod y rheoleiddiwr yn cymryd camau gweithredu priodol. Gallai ymddygiad sydd wedi digwydd oddi allan i rôl broffesiynol unigolyn cofrestredig hefyd fod yn arwydd o risg i ofal defnyddwyr y gwasanaeth, i ddiogelwch y cyhoedd neu i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

39. Gellid ystyried bod rhai mathau o ymddygiad yn sylfaenol anghydnaws â pharhau i fod yn gofrestredig oherwydd eu bod yn gwyro mewn modd hynod ddifrifol oddi wrth y safonau y mae angen i unigolion sy'n gofrestredig gyda'r HCPC eu cynnal. Rhestrir rhai enghreifftiau o ymddygiad o'r fath ym mharagraff 179.

### Asesu bai

40. Wrth asesu niwed neu'r risg o niwed, dylai'r paneli ystyried i ba raddau y mae'r unigolyn cofrestredig ar fai am y niwed hwnnw neu am beri i rywun fod yn agored i risg o niwed damweiniol. Ni ellir ystyried graddau'r risg o niwed ar wahân i bopeth arall, oherwydd y gall hyd yn oed marwolaeth neu anaf difrifol fod yn ganlyniad i gamgymeriad anfwriadol sy'n annhebygol o gael ei ailadrodd.

41. I'r gwrthwyneb, gallai unigolyn fod wedi bwriadu peri niwed difrifol, neu fod wedi gweithredu'n ddi-hid wrth wneud hynny, ond drwy ddim ond lwc, na chafwyd unrhyw niwed gwirioneddol. Dylai'r paneli hefyd ystyried unrhyw ffactorau systemig a chyd-destunol sydd yn berthnasol, yn eu tyb nhw, i'w proses o wneud penderfyniadau.

42. Wrth asesu bai, dylai'r paneli ystyried cyflwr meddwl unigolyn cofrestredig, gan gyfeirio at Nodyn Ymarfer HCPTS ar Wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwr meddwl unigolyn cofrestredig. Dylent gadw mewn cof bod niwed bwriadol yn fwy difrifol na niwed sy'n deillio oherwydd i'r unigolyn cofrestredig fod yn ddi-hid wrth anwybyddu risg, ac mae hynny yn ei dro yn fwy difrifol na niwed sy'n deillio o weithred esgeulus pan na fyddai'r niwed wedi ei ragweld gan yr unigolyn cofrestredig.

43. Wrth asesu niwed a risgiau i'r dyfodol, dylai'r paneli ystyried y ffaith bod gwahanol fathau o niwed. Efallai y bydd y niwed yn cael effaith niweidiol ar iechyd corfforol neu feddyliol. Mewn achosion eraill, er enghraifft bwlio neu gamymddwyn rhywiol tuag at gydweithwyr, gallai'r niwed gynnwys chwalu ymddiriedaeth o fewn tîm ehangach, a gallai hynny effeithio ar ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Elfennau lliniarol

44. Ffactorau sy'n tueddu i wneud mater yn llai difrifol o safbwynt yr ymateb rheoleiddiol angenrheidiol ydy elfennau lliniarol. Gallant fod yn gysylltiedig â gweithredoedd, hepgoriadau neu amgylchiadau'r achos neu ag ymateb yr unigolyn cofrestredig iddynt.

45. Gallai'r canlynol fod ymhlith yr elfennau lliniarol sy'n berthnasol i weithredoedd neu hepgoriadau'r unigolyn cofrestredig:

   - gweithred unigryw – gallai hyn awgrymu bod llai o risg o ailadrodd yn y dyfodol;
   - dim risg o niwed neu ganlyniad niweidiol; neu
   - camgymeriad didwyll, sy'n golygu bod llai o fai nag mewn gweithred fwriadol neu ddi-hid a'i bod yn haws cywiro pethau.

46. Gallai'r canlynol fod ymhlith yr elfennau lliniarol sy'n deillio o ymateb yr unigolyn cofrestredig:

   - mewnwelediad;
   - edifeirwch;
   - ymddiheuro; a,
   - chamau cywiro.

47. Mae materion lliniarol sy'n gyfan gwbl bersonol, er enghraifft colled ariannol neu niwed i enw da a fyddai'n ganlyniad i osod sancsiwn, yn debygol o fod yn llawer llai arwyddocaol mewn achos rheoleiddiol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu'r cyhoedd, nag y byddent mewn llys sy'n gosod dedfryd er mwyn cosbi.

48. Dylai'r paneli gofnodi yn eu penderfyniad pa elfennau lliniarol ac unrhyw elfennau cyd-destunol y byddant wedi'u hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn i'w osod.

49. Er nad yw elfennau lliniarol yn esgusodi nac yn cyfiawnhau ymddygiad neu alluogrwydd gwael, gallent fod yn arwyddion defnyddiol fod y risg sy'n parhau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn llai. Am y rheswm hwnnw, gallai elfennau lliniarol leihau graddau'r angen i osod cyfyngiadau drwy sancsiwn.

50. Mae'n debygol y bydd y graddau y bydd unigolyn cofrestredig yn cydnabod eu ffaeleddau ac wedi mynd i'r afael â nhw, neu y bydd yn ymddangos fel petai o ddifri yn fodlon ac yn gallu gwneud hynny, yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, sydd yn briodol. Pan fydd unigolyn cofrestredig yn cydnabod eu ffaeleddau ac yn fodlon mynd i'r afael â nhw,

gallai'r risg o ailadrodd fod yn llai. Fodd bynnag, rhaid rhoi mwy o bwys ar ddiogelu'r cyhoedd nag ar fewnwelediad, edifeirwch ac ymddiheuriad.

51. Mae gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ddyletswydd gonestrwydd, sef cyfrifoldeb proffesiynol i fod yn agored, yn onest ac yn ddiffuant pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal, triniaeth neu wasanaeth y maent wedi'i ddarparu. Mae dyletswydd gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol unigolyn cofrestredig i ymddiheuro wedi'u hamlinelli yn y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg:

- Rhaid i unigolion cofrestredig fod yn agored, yn onest ac yn ddiffuant pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r gofal, y driniaeth neu wasanaeth arall y maent yn eu darparu, drwy:
  - rhoi gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, i ofalwyr, neu lle nad oes ganddynt fynediad uniongyrchol at yr unigolion hynny, i'r clinigydd arweiniol, bod rhywbeth wedi mynd o'i le;
  - darparu eglurhad manwl i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr o'r amgylchiadau lle mae pethau wedi mynd o'u lle a'r effaith debygol; a
  - cymryd camau gweithredu i gywiro'r camgymeriad os oes modd a rhoi manylion y camau hyn i ddefnyddiwr y gwasanaeth a, lle bo hynny'n briodol, i'w gofalwr.
- Rhaid i unigolion cofrestredig ymddiheuro i ddefnyddiwr y gwasanaeth ac/neu ofalwr pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r gofal, y driniaeth neu wasanaethau eraill y maent yn eu darparu.

52. Wrth ystyried unrhyw fewnwelediad, edifeirwch neu ymddiheuriad a gynigir gan unigolyn cofrestredig, dylai'r paneli gadw mewn cof y gallai ffactorau megis niwrowahaniaeth neu wahaniaethau diwylliannol ddylanwadu ar y modd y caiff y rhain eu mynegi, a hynny ar lafar ac yn ddieiriau. Gallai hynny fod yn arbennig o berthnasol lle nad y Saesneg yw iaith gyntaf yr unigolyn cofrestredig.

53. Dylai'r paneli osgoi gwneud rhagdybiadau ar sail presenoldeb neu absenoldeb emosiwn neu dawelwch a dylent ystyried y ffyrdd gwahanol y gellid dangos edifeirwch a mewnwelediad.

### Mewnwelediad

54. Wrth ystyried sancsiwn, bydd angen i'r paneli ystyried pa fewnwelediad y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'i ddangos a pha mor berthnasol yw hynny i'r sancsiwn sydd ei angen a'i effaith ar y sancsiwn. Dylai'r paneli geisio cyngor gan yr asesydd cyfreithiol bob tro ynglŷn â'r modd y dylent fynd ati i gynnal eu hasesiad o fewnwelediad yr unigolyn cofrestredig.

55. Dylai'r paneli gymryd gofal arbennig wrth asesu mewnweledIad mewn achosion lle mae'r unigolyn cofrestredig wedi gwadu'r ffeithiau a honnwyd yn eu herbyn a chyfeirio at adrannau perthnasol Nodyn Ymarfer HCPTS ar [Amhariad ar addasrwydd i ymarfer](#).

56. Pan fydd yn bresennol, gall mewnwelediad diffuant ddangos:

- y bydd yr unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y panel;
- y bydd yr unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau a osodir ar eu hymarfer;
- bod y risg o ailadrodd, a thrwy hynny y risg i ddefnyddwyr y gwasanaeth, yn sylweddol llai nag mewn achosion lle nad oes mewnwelediad; a
- bod y risg o niwed i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn llai.

57. Ystyr mewnwelediad ydy bod yr unigolyn cofrestredig yn deall ac yn derbyn yn ddiffuant y pryderon sydd wedi'u mynegi mewn perthynas â'u hymddygiad neu eu galluogrwydd. Mae'n debygol y bydd yn cael ei ddangos drwy:

- gydnabyddiaeth ddiffuant o'r pryderon a fynegwyd;
- dealltwriaeth o effaith neu effaith bosib eu gweithredoedd; ac
- empathi amlwg tuag at y niwed neu'r niwed posib a achosir i bobl eraill gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

58. Mae'n debygol y bydd gwir fewnwelediad yn cael ei ddangos drwy edifeirwch, ymddiheuriad a chamau cywiro amserol a ddangosir cyn unrhyw wrandawiad. Wrth asesu diffuantrwydd ymddiheuriad, dylai'r panel ystyried amseru a lefel yr edifeirwch a'r mewnwelediad y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'u dangos, a phresenoldeb a natur unrhyw gamau cywiro y maent wedi'u cymryd.

**Edifeirwch**

59. Mae mynegi edifeirwch yn golygu bod unigolyn cofrestredig yn cymryd cyfrifoldeb dros ac yn dangos eu bod yn edifar am eu gweithredoedd, a gellid dangos hynny drwy un neu fwy o'r canlynol:

- cydnabod eu bod wedi gwneud camgymeriad;
- rhoi ymddiheuriad; a
- gweithredu camau cywiro priodol.

60. Er y gellir ystyried edifeirwch a fynegir yn ystod gwrandawiad, gellid rhoi mwy o bwys ar edifeirwch a fynegwyd ymlaen llaw. Rhaid i'r paneli roi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau perthnasol wrth benderfynu ar berthnasedd ac effaith

mewnwelediad ac edifeirwch mewn perthynas â’u penderfyniadau ynglŷn â sancsiwn.

### Ymddiheuriad

61. Nid yw ymddiheuriad yn golygu bod yr unigolyn cofrestredig yn cyfaddef atebolrwydd cyfreithiol dros yr hyn a ddigwyddodd na thorri dyletswydd statudol, y gall fod modd ei gyflwyno fel tystiolaeth o atebolrwydd mewn achos cyfreithiol arall. Cyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig sy’n gymwys mewn unrhyw achos arall fydd yn pennu a fydd ymddiheuriad yn cael ei drin yn y modd hwnnw.

62. Mae ymddiheuriadau yn elfen bwysig o ddyletswydd gonestrwydd unigolyn. Mae safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg 8.1 ac 8.2 yr HCPC yn egluro bod rhaid i unigolion cofrestredig ymddiheuro i ddefnyddiwr y gwasanaeth a/neu ofalwr pan fydd rhywbeth wedi mynd o’i le gyda’r gofal, y driniaeth neu wasanaethau eraill y maent yn eu darparu. Gallai ymddiheuriad fod yn un o’r ffyrdd y mae unigolyn yn dangos mewnwelediad.

63. Bydd amseru a natur unrhyw ymddiheuriad yn cael eu dylanwadu gan y cyd-destun a chan amgylchedd gweithio yr unigolyn cofrestredig. Er yr anogir ymddiheuriad amserol, gall fod rheswm da dros oedi cyn i unrhyw ymddiheuriad gael ei gynnig, a dylai’r paneli ystyried y rhesymau amrywiol pam ei bod yn bosib na roddwyd ymddiheuriad. Er enghraifft, gallai unigolion cofrestredig, gan gynnwys y rhai y mae cyfyngiadau ar eu mynediad at gyngor cyfreithiol, ofni’r effaith y bydd ymddiheuriad yn ei chael ar atebolrwydd. Gall ffactorau diwylliannol gwahanol, niwroamrywiaeth, a phrofiadau bywyd hefyd gael effaith ar unigolyn cofrestredig o ran rhoi ymddiheuriad neu beidio, neu’r ffordd y maent yn mynegi ymddiheuriad neu fewnwelediad.

64. At ddibenion achos addasrwydd i ymarfer gerbron panel, ni fydd ymddiheuriad yn cael ei drin fel cyfaddefiad o'r ffeithiau honedig nac o amhariad cyfredol.

### Camau cywiro

65. Mae camau cywiro yn golygu bod unigolyn cofrestredig yn cymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw bryderon sydd wedi’u mynegi ynglŷn â’u hymddygiad, eu galluogrwydd neu eu hiechyd. Mae camau cywiro effeithiol yn debygol o:

- ddangos bod gan yr unigolyn cofrestredig fewnwelediad i bryderon ynglŷn â’u hymddygiad neu eu galluogrwydd neu eu gallu i reoli eu hiechyd;
- lleihau’r risg y caiff y pryderon eu hailadrodd; a
- lleihau’r risg i’r cyhoedd, gan gynnwys hyder y cyhoedd yn y proffesiynau.

66. Mae ystyried a oes camau cywiro wedi'u cymryd, ac a ellir ystyried bod unrhyw gamau cywiro yn effeithiol, yn elfennau pwysig o asesiad panel o ba risg y gallai'r unigolyn cofrestredig eu peri i'r cyhoedd, a felly pa sancsiwn, os o gwbl, sydd ei angen er mwyn lliniaru'r risg hwnnw.

67. Mae ystod eang o gamau cywiro ar gael i unigolyn cofrestredig, a bydd ffurf y camau cywiro hynny yn dibynnu ar natur y pryderon a fynegwyd. Dylai paneli fod yn agored i'r amrywiaeth yn y dystiolaeth o gamau cywiro y gallai unigolyn cofrestredig ei chyflwyno. Penderfyniad i'r panel ei wneud yn y pen draw ydy'r un ynglŷn â pha mor briodol ydy'r camau cywiro; fodd bynnag gallai camau cywiro gynnwys (**ond nid ydynt yn gyfyngedig i**):

- cyrsiau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad ac agwedd, megis ffiniau proffesiynol a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- hyfforddiant i fynd i'r afael â diffygion o ran galluogrwydd;
- camau ailsefydlu er mwyn cefnogi unigolion gyda phryderon iechyd;
- coetsio, mentora a goruchwylio er mwyn mynd i'r afael â materion galluogrwydd ac ymddygiad;
- myfyrdodau y bydd yr unigolyn cofrestredig wedi'u darparu i'r panel; neu,
- gweithgaredd datblygu proffesiynol parhaus arall i fynd i'r afael â phryderon yr achos.

68. Mae rhai pryderon mor ddifrifol fel nad oes modd i weithgareddau y bwriedir iddynt fod yn gamau cywiro mewn perthynas â'r pryder leihau'r risg i'r cyhoedd neu i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn ddigonol. Er gwaethaf y camau y bydd yr unigolyn cofrestredig wedi'u cymryd i geisio cywiro pethau mewn perthynas â'r pryderon, gallai'r panel dal i deimlo bod angen gosod sancsiwn mwy cyfyngol. Gallai achosion sy'n cynnwys y canlynol fod ymhlith rhai o'r fath:

- anonestrwydd;
- methiant i fynegi pryderon;
- methiant i weithio mewn partneriaeth;
- gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- ymddygiad sydd yn doriad difrifol ar ffiniau proffesiynol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- camddefnyddio swydd broffesiynol, yn enwedig pan fydd unigolyn sy'n agored i niwed yn gysylltiedig;
- ymddygiad sydd yn rhywiol ei natur neu wedi'i gymell gan ryw;

- cam-drin plant yn rhywiol neu ddelweddau anweddus o blant;[9]
- cael eu cynnwys ar gronfa ddata troseddwyr rhyw;
- euogfarnau troseddol, rhybuddion a dedfrydau cymunedol am droseddau difrifol; a
- thrais sydd yn ddifrifol neu'n cael effaith niweidiol mewn modd arall ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

69. Pan fydd y panel o'r farn nad yw'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon yn ddigonol i gywiro'r materion dan sylw, dylai amlinellu'n eglur:

- difrifoldeb y pryderon;
- y risg sy'n cael ei pheri i'r cyhoedd;
- y camau y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'u cymryd i geisio mynd i'r afael â'r pryderon; a
- y rhesymau pam nad yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

## Elfennau sy'n gwaethygu pethau

70. Elfennau sy'n gwaethygu pethau ydy unrhyw nodweddion mewn achos sydd yn cynyddu difrifoldeb y pryderon. Lle maent i'w cael, maent yn debygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

71. Wrth ystyried effaith elfennau sy'n gwaethygu pethau ar sancsiwn, dylai paneli werthuso'r elfennau hyn yn iawn yn eu cyfanrwydd ac ar sail achosion unigol. Rhaid i'r paneli felly roi ystyriaeth ddyledus i'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt ynglŷn â'r achos dan sylw, gan gynnwys unrhyw ffactorau cyd-destunol ehangach. Dylai'r ystyriaethau hynny wedyn ffurfio rhan o ymarfer cydbwyso ehangach y panel er mwyn penderfynu pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

### Torri ymddiriedaeth

72. Mae ymddiriedaeth yn elfen sylfaenol o'r berthynas rhwng unigolyn cofrestredig a defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr. Gall torri'r ymddiriedaeth hon gael effeithiau sylweddol ar ddiogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, gallai defnyddiwr gwasanaeth beidio ag ymgysylltu ag unigolyn cofrestredig oherwydd eu bod yn pryderu na allant ymddiried ynddynt, gan beri oedi i driniaeth neu gefnogaeth. Gall torri ymddiriedaeth gael effaith niweidiol hefyd ar yr hyder sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn yn fwy cyffredinol.

---

[9] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'delweddau anweddus o blant' yn cyfeirio at unrhyw ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus neu ddelweddau o blant sydd wedi'u gwahardd.

73. Mae torri ymddiriedaeth yn fwy difrifol fyth pan fydd defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy’n agored i niwed yn gysylltiedig.

74. Lle bu torri ymddiriedaeth, mae paneli’n debygol o osod sancsiynau mwy cyfyngol a dylent ddarparu rhesymau clir os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny.

**Ailadrodd pryderon / patrwm o ymddygiad annerbyniol**

75. Mae’r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn amlinellu’r rhwymedigaeth sydd ar unigolion sy’n gofrestredig gyda’r HCPC i ‘hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr’ (safon 1) ac i ‘weithio o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth a’u sgiliau’ (safon 3). Pan fydd pryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â’u hymddygiad, eu galluogrwydd neu eu hiechyd, mae dyletswydd ar unigolion cofrestredig i fynd i’r afael â’r pryderon hynny ac i sicrhau nad ydynt yn amharu ar ddiogelwch defnyddwyr y gwasanaeth.

76. Mae ailadrodd pryderon, neu batrwm o ymddygiad annerbyniol, yn arwain at risgiau posib mwy i’r cyhoedd, am nifer o resymau megis:

- mae’r ffaith bod yr ymddygiad wedi’i ailadrodd yn cynyddu’r tebygolrwydd y gallai ddigwydd eto; ac
- mae’r ailadrodd yn awgrymu diffyg mewnwelediad ar ran yr unigolyn cofrestredig.

77. Mae camymddygiad neu ymddygiad annerbyniol a ailadroddir, yn enwedig pan fydd wedi cael sylw blaenorol gan gyflogwr neu gan weithredu rheoleiddiol, yn debygol o olygu bod angen sancsiynau mwy cyfyngol er mwyn mynd i'r afael â’r risgiau a amlinellir uchod.

**Diffyg mewnwelediad**

78. Pan fydd diffyg mewnwelediad ar ran unigolyn cofrestredig, mae’n bosib y byddant yn peri risg uwch i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

79. Mae unigolion cofrestredig nad ydynt yn cydnabod yn ddiffuant y pryderon a fynegwyd ynglŷn â’u haddasrwydd i ymarfer ac nad ydynt yn deall neu’n cymryd cyfrifoldeb dros effaith neu effaith bosib eu gweithredoedd, yn annhebygol o gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau diogelwch defnyddwyr y gwasanaeth fydd yn mynd i’r afael â’r pryderon a fynegwyd. Am y rheswm hwnnw, yn yr achosion hyn, mae paneli yn debygol o osod sancsiynau mwy difrifol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

80. Dylai’r paneli dderbyn cyngor gan yr asesydd cyfreithiol bob tro ynglŷn â’r modd cywir y dylent fynd ati i asesu mewnwelediad ac effaith hynny ar sancsiwn.

**Diffyg camau cywiro**

81. Os bydd unigolyn cofrestredig yn dewis peidio â chynnal gweithgareddau cywiro i fynd i'r afael â'u gwendidau neu'n methu â chymryd camau cywiro pan fyddant wedi addo gwneud hynny, gallai fod yn arwydd o ddiffyg mewnwelediad. Gallai hynny beri risg sylweddol uwch o ailadrodd ac felly risg i'r cyhoedd. Mae'n debygol felly y bydd angen sancsiynau mwy difrifol mewn achosion lle gwelir ychydig neu ddim camau cywiro, er mwyn diogelu'r cyhoedd.

82. Wrth werthuso effaith diffyg camau cywiro yn gwaethygu pethau, dylai'r paneli ystyried pa rwystrau rhag cymryd camau cywiro allai fod yno i'r unigolyn cofrestredig, gan gynnwys anabledd, iechyd, beichiogrwydd neu famolaeth, neu gyfrifoldebau gofal. Dylai'r paneli fod yn ofalus hefyd rhag dod i gasgliadau negyddol ar sail ymddygiad neu ddiffyg ymddygiad sy'n deillio o bresenoldeb anabledd.

**Niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau / niwed potensial i ddefnyddwyr gwasanaethau**

83. Mewn achosion lle bydd defnyddiwr gwasanaeth wedi cael ei niweidio, neu lle roedd potensial i niwed gael ei achosi, dylai'r paneli roi ystyriaeth arbennig i unrhyw risg sy'n parhau i ddiogelwch defnyddwyr y gwasanaeth, ac unrhyw effaith ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

84. Bydd niwed i ddefnyddiwr gwasanaeth, neu'r potensial y gallai hynny ddigwydd, o bwysigrwydd arbennig mewn achosion sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth sydd yn agored i niwed. Yn yr achosion hynny, mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd sancsiwn mwy difrifol yn cael ei osod er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag ymddygiad.

## Adnabod achosion difrifol

85. Mae achosion sydd yn cynnwys elfennau neu ymddygiadau penodol yn debygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol oherwydd eu natur ddifrifol a'u bod yn anghydnaws â safonau'r HCPC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- anonestrwydd;
- methiant i fynegi pryderon;
- methiant i weithio mewn partneriaeth;
- gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- ymddygiad sydd yn doriad difrifol ar ffiniau proffesiynol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- camddefnyddio swydd broffesiynol, yn enwedig pan fydd unigolyn sy'n agored i niwed yn gysylltiedig;

- ymddygiad sydd yn rhywiol ei natur neu wedi'i gymell gan ryw;
- cam-drin plant yn rhywiol neu ddelweddau anweddus o blant;[10]
- cael eu cynnwys ar gronfa ddata troseddwyr rhyw;
- euogfarnau troseddol am droseddau difrifol; a
- trais.

86. Gallai'r ymddygiadau a amlinellir yn yr adran hon gyd-ddigwydd, a dylai'r paneli ystyried hynny a'u hasesu mewn modd cymesur. Dylai'r paneli hefyd ystyried yr achosion hynny ochr yn ochr ag unrhyw elfennau lliniarol neu elfennau sy'n gwaethygu pethau.

### Anonestrwydd

87. Mae'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig fod yn onest a meithrin ymddiriedaeth (safon 9). Mae anonestrwydd yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn ac mewn rhai achosion, gall effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

88. Mae anonestrwydd, oddi mewn ac oddi allan i'r gweithle, yn gallu cael effaith sylweddol ar yr ymddiriedaeth a roddwyd mewn pobl sydd wedi yn anonest, ac o bosib ar ddiogelwch y cyhoedd a'r proffesiwn yn gyffredinol. Mae'n debygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol. Wrth ystyried achosion lle ceir anonestrwydd, dylai'r paneli ystyried Nodyn Ymarfer HCPTS ar Wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwr meddwl unigolyn cofrestredig.

89. O ystyried pa mor ddifrifol yw anonestrwydd, mae'r achosion yn fwy tebygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol. Fodd bynnag, dylai'r paneli gadw mewn cof bod gwahanol ffurfiau a gwahanol raddau o anonestrwydd y mae angen eu hystyried mewn modd cynnil priodol. Ymhlith y ffactorau y dylai'r paneli eu hystyried yn hyn o beth, mae (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**):

- a ddigwyddodd yr ymddygiad fel un weithred yn unig, neu a ddigwyddodd ar sawl achlysur;
- am faint y parhaodd unrhyw anonestrwydd;
- natur yr anonestrwydd;
- effaith wirioneddol neu bosibl yr anonestrwydd;
- a fu gan yr unigolyn cofrestredig rôl oddefol neu rôl weithredol yn yr anonestrwydd;
- unrhyw elfennau gwaethygu eraill perthnasol; ac

[10] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'delweddau anweddus o blant' yn cyfeirio at unrhyw ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus neu ddelweddau o blant sydd wedi'u gwahardd.

- unrhyw elfennau lliniarol eraill perthnasol.

**Methiant i fynegi pryderon**

90. Mae'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn amlinellu'r rhwymedigaeth sydd ar unigolion sy'n gofrestredig gyda'r HCPC i 'adrodd am bryderon ynglŷn â diogelwch' (safon 7). Rhaid i unigolion cofrestredig adrodd unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch neu lesiant defnyddwyr y gwasanaeth yn brydlon ac mewn modd priodol, a sicrhau bod llesiant defnyddwyr y gwasanaeth yn cael blaenoriaeth dros unrhyw deyrngarwch proffesiynol neu deyrngarwch arall. Yn benodol, mae'r safonau'n amlinellu angen amlwg i weithredu mewn modd priodol os yw'r pryder yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

91. Pan fydd unigolyn cofrestredig yn peidio â mynegi pryderon, gall hynny roi defnyddwyr y gwasanaeth dan risg arbennig ac mae'n debygol o arwain at sancsiwn mwy cyfyngol. Bydd hynny'n arbennig o briodol pan fydd unigolyn cofrestredig wedi peidio â mynegi pryderon droeon, pan fydd peidio â mynegi pryderon wedi arwain at risg ddifrifol i ddiogelwch neu lesiant defnyddwyr y gwasanaeth, neu os oedd y pryder yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

92. Dylai'r paneli ystyried hefyd a yw'r unigolyn cofrestredig wedi cofnodi eu rhesymeg dros beidio â datgelu pryder ynglŷn â diogelu. Petai unigolyn cofrestredig wedi peidio â mynegi pryder a heb gofnodi eu rhesymeg mewn perthynas â'r penderfyniad, gallai hynny fod yn arwydd o ddiffyg crebwyll neu ymwybyddiaeth ynglŷn â'r pryder sydd yn rhoi defnyddwyr y gwasanaeth dan risg.

**Methiant i weithio mewn partneriaeth**

93. Mae'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig 'weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr' er budd defnyddwyr gwasanaeth (safonau 2.6-2.9). Felly, rhaid i unigolion cofrestredig rannu eu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad â chydweithwyr a, lle bo hynny'n briodol, gwybodaeth berthnasol ynglŷn â gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill a ddarperir i un o ddefnyddwyr y gwasanaeth.

94. Mae achosion lle bydd unigolyn cofrestredig yn methu â gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chydweithwyr, er enghraifft, lle bydd yr unigolyn cofrestredig yn bwlio neu'n gwahaniaethu yn erbyn cydweithwyr (gweler safonau 1.5-1.7), neu'n anonest â chydweithwyr, yn debygol o arwain at sancsiwn mwy cyfyngol. Mae ymddygiadau o'r fath yn tanseilio ymddiriedaeth ac effeithiolrwydd ymhlith y tîm iechyd a gofal, gan beri risg o niwed i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr, a chydweithwyr, a pheri risg i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

95. Bwlio[11] ydy ymddygiad digroeso gan unigolyn neu grŵp sydd naill ai:

- yn dramgwyddus, bygythiol neu sarhaus; neu,
- yn gamddefnydd o bŵer sy'n tanseilio, bychanu, neu beri niwed corfforol neu emosiynol i rywun.

96. Gallai bwlio gynnwys beirniadaeth gyson, lledu sïon maleisus ynglŷn â rhywun, rhoi llwyth gwaith trymach i rywun nag i bobl eraill yn fwriadol, bychanu rhywun yn gyson, eithrio rhywun o ddigwyddiadau cymdeithasol y tîm, neu roi sylwadau difrïol, tramgwyddus neu fygythiol ar luniau ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall yr ymddygiadau hyn ddigwydd fel patrwm rheolaidd neu fel digwyddiad unigol, a gallant ddigwydd wyneb yn wyneb, ar y cyfryngau cymdeithasol,[12] neu mewn parth rhithiol.

**Gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill**

97. Rhaid i unigolion cofrestredig drin pobl yn deg, beth bynnag fo'u gwerthoedd personol, eu tueddfrydau a'u credoau. Rhaid iddynt weithredu er mwyn sicrhau nad yw eu gwerthoedd personol, eu tueddfrydau a'u credoau yn peri iddynt wahaniaethu yn erbyn pobl eraill nac yn cael effaith niweidiol ar y gofal, y triniaethau neu wasanaethau eraill y maent yn eu darparu. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hamlinellu yn safonau 1.5-1.7 y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.

98. Mae hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail eu nodweddion gwarchodedig, neu oherwydd nodweddion gwarchodedig rhywun sy'n gysylltiedig â nhw.[13]

99. Mae gwahaniaethu yn annerbyniol ac mae'n gallu cael effaith negyddol ar ddiogelu'r cyhoedd ac ar yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd mewn unigolion cofrestredig. Mae safonau'r HCPC yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig beidio â gwahaniaethu ac iddynt herio gwahaniaethu, trin defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr â pharch, cyfathrebu'n gwrtais, yn ystyriol ac yn gyfrifol, a sicrhau bod eu hymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ynddynt ac yn eu proffesiwn.

---

[11] Diffiniad a'r enghreifftiau yn seiliedig ar: What bullying is - Bullying at work - Acas

[12] Mae'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn amlinellu'r hyn a ddisgwyliwn gan unigolion cofrestredig pan fyddant yn ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhwydweithio (safonau 2.10-2.12).

[13] Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r naw 'nodwedd warchodedig' sydd yn dod dan gwmpas y ddeddfwriaeth hon, sef oed, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodasau a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chredo, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail unrhyw un neu fwy o'r nodweddion hyn.

100. Gall gwahaniaethu anghyfreithlon ddigwydd yn y ffurfiau canlynol:

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** - trin rhywun yn llai ffafriol na phobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** - gosod rheolau neu drefniadau ar waith sydd yn berthnasol i bawb ac sy'n rhoi rhywun dan anfantais annheg oherwydd nodwedd warchodedig.[14]
- Aflonyddu - ymddygiad digroeso sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig ac sy'n amharu ar urddas rhywun neu'n creu amgylchedd tramgwyddus iddynt.
- **Erledigaeth** - trin rhywun yn annheg oherwydd eu bod wedi cwyno am wahaniaethu neu aflonyddu.

101. Mae safonau'r HCPC yn nodi bod rhaid i unigolion cofrestredig beidio â gwahaniaethu'n annheg. Mae hynny'n cynnwys gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n dod dan gwmpas y Ddeddf Cydraddoldeb.

102. Gall fod goblygiadau difrifol i ddiogelwch y cyhoedd a hyder yn y proffesiwn pan fydd unigolyn cofrestredig yn gwahaniaethu'n **annheg** yn erbyn unigolion (e.e., cydweithwyr, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr neu aelodau o'r cyhoedd), er enghraifft pan fydd unigolyn cofrestredig yn:

- trin unigolyn yn wahanol ac yn waeth na phobl eraill oherwydd pwy ydyn nhw, neu oherwydd rhywun sy'n gysylltiedig â nhw;
- gwrthod darparu gwasanaeth i unigolyn neu eu derbyn yn gleient oherwydd pwy ydyn nhw, neu oherwydd rhywun sy'n gysylltiedig â nhw;
- ymddwyn mewn modd sy'n amharu ar urddas unigolyn neu'n gwneud iddynt deimlo dan fygythiad; neu
- cosbi unigolyn am gwyno am wahaniaethu neu helpu rhywun arall i gwyno.

103. Pan fydd panel yn canfod bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer wedi'i amharu oherwydd gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr neu bobl eraill – boed hynny oddi mewn neu oddi allan i'w bywyd proffesiynol – dylai'r panel gyfeirio at Nodyn Ymarfer HCPTS ar Wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwr meddwl unigolyn cofrestredig. Mae'r ddogfen honno'n amlinellu'r modd y dylai paneli feddwl mewn achosion lle'r honnir bod ymddygiad yr unigolyn cofrestredig yn gwahaniaethu.

---

[14] Gall fod yn gyfreithlon cael rheolau neu drefniadau penodol ar waith, cyn belled â bod modd eu cyfiawnhau.

104. Mae'r paneli'n fwy tebygol o osod sancsiwn mwy cyfyngol am ymddygiad sy'n gwahaniaethu, gan ystyried y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ac amcanion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Mynd y tu hwnt i ffiniau proffesiynol**

105. Ym maes gofal iechyd, mae gwaith tîm effeithiol yn hollbwysig ar gyfer iechyd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr. Yn ogystal â pheri niwed neu risg o niwed i'r aelodau o'r tîm yr effeithir arnynt, mae mynd y tu hwnt i ffiniau proffesiynol rhwng cydweithwyr yn gallu tanseilio gwaith tîm effeithiol, gan beri risg o niwed i'r bobl y mae'r tîm yno i'w gwasanaethu.

106. Mae'r berthynas rhwng unigolyn cofrestredig a defnyddiwr y gwasanaeth, gofalwr neu gydweithiwr yn seiliedig ar ymddiriedaeth, hyder a phroffesiynoldeb. Mae'r berthynas rhwng defnyddiwr gwasanaeth neu gydweithiwr mewn swydd is yn un lle ceir cydbwysedd pŵer anghydradd, o blaid yr unigolyn cofrestredig. Er y dylai unigolion cofrestredig ymdrechu i gael perthynas gadarnhaol â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a chydweithwyr, mae'n hanfodol iddynt barhau'n ymwybodol o'r ddeinameg a gofalu nad ydynt yn camddefnyddio eu swydd. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u hamlinellu yn safonau 1.8-1.12 y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.

107. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig sicrhau bod eu hymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth y cyhoedd ynddynt ac yn eu proffesiwn. Mae hynny'n golygu bod yn onest ac ennyn ymddiriedaeth a gweithredu er lles defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal â sicrhau bod eu perthynas â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr, a chydweithwyr yn parhau'n broffesiynol.

108. Pan ganfyddir bod unigolyn cofrestredig wedi camddefnyddio eu statws proffesiynol, mae hynny'n hynod debygol o leihau ymddiriedaeth y cyhoedd ynddynt ac yn eu proffesiwn. Po fwyaf ydy'r camddefnydd honedig o ymddiriedaeth, po fwyaf difrifol y dylai'r panel ystyried y pryderon.

109. Wrth asesu difrifoldeb ymddygiad sy'n cynnwys mynd y tu hwnt i ffiniau proffesiynol, dylai'r paneli ddefnyddio'r egwyddorion a amlinellir yn y polisi hwn yn yr asesiad hwnnw, fel y byddent yn ei wneud mewn unrhyw achos. Yn ogystal, dylent ystyried y ffactorau penodol sy'n berthnasol i asesu difrifoldeb yn y mathau hyn o achosion fel y'u hamlinellir yn Nodyn Ymarfer HCPTS ar Ffiniai proffesiynol.

110. Dylid ystyried bod ymddygiad unigolyn cofrestredig yn **ysglyfaethus** pan fyddant yn ceisio cymryd mantais o bobl eraill, gyda'r cymhelliad o gychwyn neu gynnal perthynas rywiol neu un sy'n amhriodol am reswm arall gyda un o ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwr neu gydweithiwr, er enghraifft

cydweithiwr sy’n agored i niwed neu mewn swydd is neu lle ceir cydbwysedd pŵer anghydradd.

111. Dylai’r panel gymryd **ymddygiad ysglyfaethus** yn arbennig o ddifrifol, oherwydd yn aml, bydd risg sylweddol i ddefnyddiwr y gwasanaeth, y gofalwr neu’r cydweithiwr sy’n cael eu targedu.

112. **Gallai ymddygiad ysglyfaethus** gynnwys ceisio cysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr neu gydweithwyr drwy ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy gofnodion cyfrinachol (er enghraifft, mynd i gyfeiriad cartref un o ddefnyddwyr y gwasanaeth heb awdurdod na rheswm da dros wneud hynny), neu ddefnydd amhriodol o’r cyfryngau cymdeithasol i fynd ar ôl un o ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwr neu gydweithiwr. Mae unrhyw dystiolaeth o ymddygiad ysglyfaethus yn debygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol.

113. Fel ym mhob achos, dylai’r panel ystyried amgylchiadau a chyd-destun penodol yr ymddygiad ac unrhyw elfennau lliniarol ac elfennau sy’n gwaethygu pethau wrth asesu’r difrifoldeb.

### Rhai sy’n agored i niwed

114. Dylid trin achosion sy’n ymwneud â defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a chydweithwyr sy’n agored i niwed yn arbennig o ddifrifol. O ystyried y cydbwysedd pŵer anghydradd rhwng unigolion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr, gallai unrhyw un o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu’r gofalwyr fod yn agored i niwed. Fodd bynnag, ystyrir bod defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr yn arbennig o agored i niwed os nad ydynt yn gallu gofalu am eu hunain neu ddiogelu eu hunain rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio. Gall cydweithwyr fod yn agored i niwed hefyd, p’un ai ydyn nhw mewn swydd is na’r unigolyn cofrestredig ai peidio. Dylai’r paneli ystyried a yw cydweithiwr yn agored i niwed wrth asesu difrifoldeb unrhyw ffeithiau a brofwyd.

115. Mae sawl ffordd y gall defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr fod yn agored i niwed. Gallai bod yn agored i niwed gynnwys:

- salwch meddwl (gan gynnwys dementia);
- oed (er enghraifft, plant dan 18 oed neu’r henoed);
- anabledd;
- diffyg galluogrwydd;
- hanes o gamdriniaeth neu esgeulustod; a
- profedigaeth.

116. Pan fydd unigolyn cofrestredig wedi cynnal perthynas rywiol neu un sy'n amhriodol am reswm arall gyda defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy'n eithriadol o agored i niwed neu wedi ymddwyn mewn modd amhriodol yn rhywiol tuag at gydweithiwr sy'n eithriadol o agored i niwed, dylai'r paneli ystyried bod hynny'n elfen sy'n gwaethygu pethau, sydd yn debygol o arwain at sancsiwn mwy cyfyngol.

**Camymddygiad rhywiol a chamymddygiad â chymhelliant rhywiol**

117. Mae camymddygiad rhywiol neu gamymddygiad â chymhelliant rhywiol yn fater difrifol iawn sy'n cael effaith sylweddol ar y cyhoedd ac ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Dylai'r paneli ystyried cymhelliant a bwriad yr unigolyn cofrestredig drwy gyfeirio at Nodyn Ymarfer HCPTS ar Wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwr meddwl unigolyn cofrestredig, yn arbennig paragraff 8 i 14, sydd yn amlinellu'r modd y dylai paneli feddwl am ymddygiad rhywiol ac ymddygiad â chymhelliant rhywiol.

118. Mae camymddygiad rhywiol neu gamymddygiad â chymhelliant rhywiol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aflonyddu rhywiol, ymosodiadau rhywiol, ac unrhyw ymddygiad arall o natur rywiol sy'n digwydd heb gydsyniad ar sail gwybodaeth, boed hynny'n gorfforol, ar-lein neu mewn unrhyw fodd arall.

119. Gallai'r camymddygiad fod wedi'i anelu at:

- ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr ac aelodau o'u teuluoedd;
- cydweithwyr; ac
- aelodau o'r cyhoedd.

120. Ni ddylai camymddygiad rhywiol yn erbyn cydweithiwr gael ei drin yn llai difrifol am y rheswm syml nad yw wedi'i gyfeirio at ddefnyddwyr y gwasanaeth, oherwydd yr effaith y gall ei chael ar y cydweithiwr ac ar ddarparu gofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

121. Dylai'r paneli ystyried hefyd a yw'r canllawiau a amlinellir yn y polisi hwn ynglŷn ag ymddygiad ysglyfaethus (paragraffau 110-113) a bod yn agored i niwed (paragraffau 114-116) yn cael eu defnyddio yn eu hasesiad o ddifrifoldeb.

122. Oherwydd difrifoldeb y mathau hyn o achosion, pan fydd panel yn canfod bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer wedi'i amharu oherwydd camymddygiad rhywiol neu gamymddygiad â chymhelliant rhywiol, mae'n debygol y byddant yn gosod sancsiwn mwy cyfyngol. Fodd bynnag, os bydd panel yn gwyro oddi wrth y dull hwn o weithredu, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir dros eu penderfyniad.

**Cam-drin plant yn rhywiol**

123. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu berswadio plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol ac mae'n cynnwys cyswllt corfforol a gweithgaredd ar-lein.

124. Nid oes modd goddef cam-drin plant yn rhywiol, boed hynny'n gorfforol neu ar-lein, mae'n peri niwed difrifol i ddiogelwch y cyhoedd ac yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Bydd unrhyw weithiwr proffesiynol y canfyddir eu bod wedi cymryd rhan mewn cam-drin plant yn rhywiol wedi arddangos ymddygiad sydd yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig ac mae'n debygol o arwain at eu diarddel.

**Troseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant[15]**

125. Mae'n anghyfreithlon cymryd, gwneud, dosbarthu, dangos neu hysbysebu delweddau anweddus o blant.

126. Mae'r llysoedd yn categoreiddio troseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant ar sail natur y delweddau a'r graddau y bu'r troseddwr yn ymwneud â'u creu.

127. Mae unrhyw drosedd sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant yn cynnwys ecsbloetio plentyn i ryw raddau, ac felly mae euogfarn am drosedd o'r fath yn fater difrifol iawn. Yn benodol, mae'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn unigolion cofrestredig a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn dan sylw.

128. Bydd unrhyw weithiwr proffesiynol y canfyddir eu bod wedi cymryd rhan mewn unrhyw drosedd sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant wedi arddangos ymddygiad sydd yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig ac mae'n debygol o arwain at eu diarddel.

**Cronfa ddata troseddwyr rhyw**

129. Bwriad cynnwys rhywun ar gronfa ddata o droseddwyr rhyw ydy diogelu'r cyhoedd rhag y rhai sydd wedi cyflawni mathau penodol o droseddau. Fel arfer, dylai paneli ystyried bod caniatáu i unigolyn cofrestredig barhau mewn, neu ddychwelyd at, ymarfer heb gyfyngiadau tra byddant ar gronfa ddata o droseddwyr rhyw yn anghydnaws â rhwymedigaeth yr HCPC i ddiogelu'r cyhoedd ac mae'n debygol o arwain at eu diarddel.

**Euogfarnau a rhybuddion troseddol**

---

[15] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'delweddau anweddus o blant' yn cyfeirio at unrhyw ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus neu ddelweddau o blant sydd wedi'u gwahardd

130. Pan fydd unigolyn cofrestredig wedi eu dyfarnu'n euog o drosedd ddifrifol a'u dedfryd yn parhau ar yr adeg y daw'r mater gerbron panel, gallai'r panel benderfynu peidio â chaniatáu i'r unigolyn cofrestredig ailgydio mewn ymarfer heb gyfyngiadau nes bydd y ddedfryd honno wedi ei chwblhau yn foddhaol. Gallai gorfodi gwaharddiad neu dynnu rhywun oddi ar y Gofrestr am y rheswm syml bod rhan o'r ddedfryd heb ei chwblhau fod yn anghymesur.

131. Dylai'r paneli ystyried natur y drosedd, ar ba gam mae'r ddedfryd, ac unrhyw dystiolaeth o adsefydlu pan fyddant yn ystyried sancsiwn priodol. Yn y pen draw, rhaid i'r panel osod sancsiwn sydd yn gyfiawn, yn gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd neu ddiogelu'r cyhoedd.

132. Nid rôl y panel ydy gorfodi cosb ychwanegol at unrhyw un sydd wedi'i gorfodi eisoes gan y llysoedd, ond yn hytrach, diogelu'r cyhoedd a buddiannau'r cyhoedd yn ehangach, ac mae hynny'n cynnwys cynnal safonau uchel ymhlith unigolion cofrestredig a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn dan sylw.

133. Os oes gan unigolyn cofrestredig euogfarn neu rybudd am drosedd llai difrifol ond bod y panel yn asesu bod risg sy'n parhau i'r cyhoedd, neu ei bod yn drosedd sy'n cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, rhaid i'r sancsiwn a osodir fod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r risg honno.

134. Os bydd y panel yn gwyro oddi wrth y dull o weithredu amlinellwyd uchod, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir dros eu penderfyniad.

**Dedfrydau cymunedol**

135. Dedfrydau heb garcharu ydy dedfrydau cymunedol a'u nod ydy cosbi ymddygiad troseddwyr, er mwyn eu cael i beidio â throseddu yn y dyfodol, ac fe'u defnyddir i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymddygiad troseddol unigolyn. Gallai hynny gynnwys gwaith cymunedol di-dâl, cydymffurfio â chyrffyw, cael eu gwahardd o ardaloedd penodol neu gymryd rhan mewn triniaeth iechyd meddwl, cyffuriau neu alcohol.

136. Mae angen i'r paneli roi ystyriaeth ofalus i delerau penodol unrhyw ddedfryd gymunedol wrth ystyried addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer. Yn gyffredinol, bydd yn amhriodol i unigolyn cofrestredig barhau mewn, neu ddychwelyd at, ymarfer heb gyfyngiadau tra bydd yn destun dedfryd o'r fath.

137. Fodd bynnag, rhaid i'r paneli ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau penodol ei hun a rhoi sylw arbennig i'r elfennau yn y ddedfryd sy'n parhau heb eu cwblhau gan werthuso pa mor berthnasol ydynt i ddiogelu'r cyhoedd a buddiannau'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys cadw hyder yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol.

138. Os bydd panel yn dewis rhoi llai o bwys ar ddedfryd gymunedol wrth benderfynu ar sancsiwn priodol, rhaid iddynt ddarparu cyfiawnhad eglur a rhesymegol dros eu penderfyniad.

**Trais**

139. Mae gan unigolion cofrestredig ddyletswydd i sicrhau bod eu hymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ynddynt ac yn eu proffesiwn (gweler safon 9.1 y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg). Pan fydd unigolyn cofrestredig wedi arddangos ymddygiad treisiol, mae hynny'n hynod debygol o effeithio ar hyder y cyhoedd yn eu proffesiwn a pheri risg i'r cyhoedd. Yn yr achosion hynny, gall fod gofyn am sancsiwn mwy cyfyngol.

# Sancsiynau sydd ar gael i'r panel

## Penderfynu pa sancsiwn sy'n briodol

140. Os bydd panel yn canfod bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer wedi'i amharu, gall:

- gyfeirio achos i gael ei gyfryngu;[16]
- peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu;
- gosod gorchymyn rhybuddio;
- gosod gorchymyn amodau ymarfer;
- gosod gorchymyn gwahardd; neu
- diarddel yr unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr.

141. Wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, sy'n briodol, dylai'r panel ddechrau drwy ystyried y sancsiwn lleiaf cyfyngol yn gyntaf, gan symud ar i fyny dim ond pan fo angen. Dylai'r paneli ddarparu rhesymau eglur pan fyddant yn penderfynu nad yw sancsiwn llai cyfyngol yn ddigonol.

142. Dylai'r **sancsiwn terfynol** fod yn un cymesur ac felly dyna fydd y cam gweithredu lleiaf posib sydd ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal safonau a hyder yn y proffesiwn. **Ar bob cam** yn y broses, rhaid i'r paneli ddilyn y canllawiau ar gyfer darparu rhesymau dros benderfyniad i osod sancsiwn a amlinellir yn y polisi hwn (paragraff 20).

143. Dylai'r paneli ystyried effaith sancsiwn ar amgylchiadau'r unigolyn cofrestredig, gan gynnwys unrhyw bryderon iechyd,[17] anabledd neu statws mewnfudo. Fodd bynnag, ni ddylai'r ystyriaethau hyn arwain at leihau sancsiwn y mae'r panel o'r farn bod ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

## Dim gweithredu

144. Mae canfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan y panel bryderon ynglŷn â gallu presennol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n annhebygol felly y byddai panel yn peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu yn dilyn canfyddiad o amhariad.

---

[16] Er bod cyfryngu yn ein deddfwriaeth dan Erthygl 29, nid yw'n cael ei ystyried yn sancsiwn. Ceir canllaw ar wahân i gyfryngu ar ffurf Nodyn Ymarfer.
[17] I gael canllawiau pellach, dylai'r paneli gyfeirio at y Nodyn Ymarfer ar Honiadau Iechyd.

145. Mewn unrhyw achos pan fydd y panel o'r farn mai peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu ydy'r canlyniad priodol a chymesur, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir er mwyn egluro'r penderfyniad hwnnw. Yn benodol, rhaid iddynt amlinellu pam y maent wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw risg i'r cyhoedd, nac i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, o beidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu.

## Gorchymyn rhybuddio

### Beth yw gorchymyn rhybuddio?

146. Sancsiwn nad yw'n cyfyngu ydy gorchymyn rhybuddio, a bydd i'w weld ar y Gofrestr ond ni fydd yn cyfyngu ar allu unigolyn cofrestredig i ymarfer. Gellir gosod y gorchymyn rhybuddio am unrhyw gyfnod rhwng un a phum mlynedd. Gellir ystyried gorchymyn o'r math hwn os gwneir honiad pellach yn erbyn yr unigolyn cofrestredig. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, dylai'r panel roi ystyriaeth i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys:

- faint o amser a fu ers i'r gorchymyn rhybuddio gael ei roi;
- pa mor berthnasol yw'r gorchymyn hwnnw i'r honiad pellach a wnaed yn erbyn yr unigolyn cofrestredig; ac
- a ydy unrhyw gamau cywiro a addawyd ac a arweiniodd at roi gorchymyn rhybuddio yn wreiddiol, yn hytrach na sancsiwn arall, wedi cael eu cyflawni.

### Pryd mae gorchymyn rhybuddio yn briodol?

147. Mae gorchymyn rhybuddio yn debygol o fod yn sancsiwn priodol ar gyfer achosion lle:

- mae'r mater dan sylw yn un unigol, cyfyngedig, neu gymharol ddibwys ei natur;
- mai risg fach o ailadrodd sydd;
- mae'r unigolyn cofrestredig wedi dangos mewnwelediad da; ac
- mae'r unigolyn cofrestredig wedi ymgymryd â chamau cywiro priodol.

148. Dylid ystyried gorchymyn rhybuddio mewn achosion lle mae natur yr honiadau yn golygu nad oes unrhyw risgiau i ddiogelu'r cyhoedd y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy sancsiwn mwy cyfyngol neu nad oes modd gosod cyfyngiadau ystyrlon ar ymarfer, ond y byddai gorchymyn gwahardd dros dro yn anghymesur.

149. Yn yr achosion hynny, dylai'r paneli ddarparu eglurhad clir sy'n dweud pam y mae wedi dewis sancsiwn nad yw'n cyfyngu, a hynny er y gallai'r panel fod wedi canfod bod risg (er mai risg fach fyddai honno) o ailadrodd.

### Am faint o amser dylid gosod gorchymyn rhybuddio?

150. Gall y panel osod gorchymyn rhybuddio am unrhyw gyfnod rhwng un a phum mlynedd. Dylai'r panel ddewis y cam gweithredu lleiaf posib sydd ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, felly dylai ddechrau drwy ystyried a fyddai gorchymyn rhybuddio am flwyddyn yn ddigonol i gyflawni hynny. Dim ond pan na fydd blwyddyn yn ddigonol y dylai ystyried gosod gorchymyn rhybuddio am gyfnod hirach.

151. Dylid ystyried pob achos yn unigol, a dylai penderfyniad y panel nodi'n eglur pa mor hir ydy'r sancsiwn y mae'n ei ystyried yn briodol ac yn gymesur, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

## Gorchymyn amodau ymarfer

### Beth yw gorchymyn amodau ymarfer?

152. Mae gorchymyn amodau ymarfer yn caniatáu i unigolyn cofrestredig barhau i ymarfer yn amodol ar gyfyngiadau sy'n adlewyrchu canfyddiad y panel ynglŷn â'u haddasrwydd i ymarfer. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gymryd camau gweithredu penodol neu'n cyfyngu ar eu hymarfer mewn ffyrdd penodol. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol mai un amod sy'n cael ei osod, a hynny am gyfnod byr, er enghraifft, ymgymryd â hyfforddiant penodol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cyfuniad o amodau. Rhaid i orchmynion amodau ymarfer gael eu hadolygu gan banel cyn i'r gorchymyn ddod i ben.

### Pryd mae gorchymyn amodau ymarfer yn briodol?

153. Mae gorchymyn amodau ymarfer yn debygol o fod yn briodol mewn achosion lle:

- mae gan yr unigolyn cofrestredig fewnwelediad;
- mae'r pryderon yn rhai y mae modd eu cywiro neu eu rheoli;
- nid oes unrhyw bryderon parhaus neu gyffredinol fyddai'n rhwystro'r unigolyn cofrestredig rhag cywiro pethau;
- mae modd llunio amodau priodol, cymesur, realistig a gwiriadwy;
- mae'r panel yn hyderus y bydd yr unigolyn cofrestredig yn cydymffurfio â'r amodau;
- bydd panel adolygu yn gallu penderfynu a yw'r amodau hynny wedi neu yn cael eu bodloni; ac
- mae'r panel yn fodlon y gall yr unigolyn cofrestredig barhau i ymarfer gydag amodau heb beri risg o niweidio'r cyhoedd.

### Pryd gallai gorchymyn amodau ymarfer fod yn amhriodol?

154. Dim ond mewn achosion pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn ymrwymo o ddifri i ddatrys y pryderon a fynegwyd, a bod y panel yn hyderus y byddant yn gwneud hynny, y bydd amodau'n effeithiol. Felly, mae amodau ymarfer yn annhebygol o fod yn addas mewn achosion lle mae'r unigolyn cofrestredig heb ymgysylltu â'r broses addasrwydd i ymarfer neu lle ceir pryderon difrifol neu barhaus.

155. Mae'n llai tebygol hefyd y bydd amodau'n briodol mewn achosion mwy difrifol, er enghraifft rhai sy'n ymwneud ag:

- anonestrwydd;
- methiant i fynegi pryderon;
- methiant i weithio mewn partneriaeth;
- gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- ymddygiad sydd yn doriad difrifol ar ffiniau proffesiynol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- camddefnyddio swydd broffesiynol, yn enwedig pan fydd unigolyn sy'n agored i niwed yn gysylltiedig;
- ymddygiad sydd yn rhywiol ei natur neu wedi'i gymell gan ryw;
- cam-drin plant yn rhywiol neu ddelweddau anweddus o blant;[18]
- cael eu cynnwys ar gronfa ddata troseddwyr rhyw;
- euogfarnau troseddol am droseddau difrifol; a
- trais.

156. Gallai fod amgylchiadau lle bydd panel o'r farn ei bod yn briodol gosod gorchymyn amodau ymarfer yn yr achosion uchod. Fodd bynnag, dim ond pan fydd yn fodlon bod ymddygiad yr unigolyn cofrestredig yn gymharol ddibwys, yn groes i'w cymeriad, yn fater y mae modd ei gywiro ac yn annhebygol o gael ei ailadrodd y dylai'r panel wneud hynny, a dim ond lle byddai sancsiwn mwy cyfyngol yn anghymesur. Dylai'r panel ofalu eu bod yn darparu rhesymeg gadarn yn yr achosion hynny.

### Pa ystyriaethau ddylai gael sylw wrth lunio amodau?

157. Wrth ystyried pa amodau i'w gosod, dylai'r paneli gyfeirio at Nodyn Ymarfer HCPTS ar Fanc amodau. Mae'n amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n

---

[18] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'delweddau anweddus o blant' yn cyfeirio at unrhyw ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus neu ddelweddau o blant sydd wedi'u gwahardd.

berthnasol i osod amodau ac yn darparu sampl o amodau i baneli eu defnyddio mewn achosion priodol.

158. Mae amodau yn tueddu i ymwneud â'r meysydd canlynol **(nid yw'r rhestr hwn yn gynhwysfawr**):

- anghenion addysg a hyfforddiant;
- cyfyngiadau ar ymarfer;
- hebryngwyr;
- goruchwylio;
- gofynion triniaeth;
- dibyniaeth ar gyffuriau;
- rhoi gwybod i'r HCPC ac eraill; a
- datblygiad personol.

159. Dylai'r amodau fod yn briodol ar gyfer cywiro'r pryderon a godwyd, a dylai'r panel fod wedi'u sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw risg fyddai'n cael ei pheri drwy bod yr unigolyn cofrestredig yn parhau i ymarfer heb gyfyngiadau a'u bod yn ymateb cymesur i'r canfyddiadau a wnaed gan y panel mewn camau cynharach yn eu proses o wneud penderfyniadau.

160. Er bod modd gosod amodau ymarfer ar unigolyn cofrestredig nad yw'n ymarfer ar y pryd, cyn gwneud hynny, dylai paneli ystyried a oes amodau sydd yr un mor effeithiol y gellid eu gosod ac nad ydynt yn ddibynnol ar fod yr unigolyn cofrestredig yn dychwelyd i ymarfer. Er enghraifft, nid oes angen i unigolyn cofrestredig fod mewn ymarfer neu gael mentor sydd wedi'u lleoli yn y gweithle ar gyfer pob gweithgaredd hyfforddiant, myfyrio neu ddatblygiad.

161. Rhaid i'r amodau hefyd fod yn rhai y mae modd cadw atynt ac yn rhai rhesymol. Dylai'r paneli hefyd roi ystyriaeth i amgylchiadau ehangach yr unigolyn cofrestredig, gan gynnwys eu lleoliad iechyd ac ymarfer a bod peidio â gosod amod, neu gyfuniad o amodau, na ellir fyth mo'u bodloni yn gyfystyr â gwaharddiad.

162. Pan fydd panel o'r farn bod angen amodau llym, a bod ganddynt bryder bod rhain mewn gwirionedd yn waharddiad ar ymarfer yr unigolyn cofrestredig, dylent ystyried a yw amodau yn sancsiwn priodol ai peidio. Dylai prif sylw'r panel fod ar ddiogelu'r cyhoedd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Os nad yw'n gallu llunio amodau ymarferol sy'n cyflawni hynny, efallai y bydd angen iddo ystyried gosod gorchymyn gwahardd dros dro.

### Am faint o amser dylai gorchymyn amodau ymarfer gael ei osod?

163. Gellir gosod gorchmynion amodau ymarfer am gyfnod o hyd at dair blynedd. Wrth benderfynu am ba mor hir mae'n briodol gosod gorchymyn amodau ymarfer, dylai'r panel ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt i'w galluogi i wneud penderfyniad priodol a chymesur.

164. Rhaid i'r panel osod terfyn amser rhesymol ar gyfer cydymffurfio ag amod, er mwyn osgoi gosod yr unigolyn cofrestredig perthnasol mewn sefyllfa ansicr am gyfnod hirach na'r angen.

165. Dylai'r paneli gadw mewn cof y bydd y gwrandawiad adolygu yn cael ei gynnal nifer o wythnosau cyn y bydd y gorchymyn yn dod i ben, felly rhaid i'r paneli sicrhau bod gan yr unigolyn cofrestredig ddigon o amser i gydymffurfio ag amodau'r gorchymyn. Dylai'r panel ddarparu rhesymau eglur yn ysgrifenedig dros benderfynu ar hyd penodol i'r gorchymyn.

166. Mae Erthygl 29(7)(c) Gorchymyn 2001 yn galluogi paneli i nodi lleiafswm o hyd at ddwy flynedd o amser y mae'n rhaid i orchymyn amodau ymarfer fod wedi bod ar waith cyn y gall yr unigolyn cofrestredig ymgeisio i'w amrywio, ei ddisodli neu ei ddileu. Dim ond mewn achosion lle mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod adolygiad cynharach yn annhebygol o fod o werth neu lle mae natur yr amodau a osodir yn golygu nad yw adolygiad cynnar yn briodol, y dylai paneli ddefnyddio'r grym hwnnw.

## Gorchymyn gwahardd dros dro

### Beth yw gorchymyn gwahardd dros dro?

167. Mae gorchymyn gwahardd dros dro yn gwahardd unigolyn cofrestredig rhag ymarfer eu proffesiwn am hyd at flwyddyn a rhaid iddo gael ei adolygu gan banel cyn i'r gorchymyn ddod i ben.

168. Ni ellir gwneud gorchmynion gwahardd dros dro yn destun amodau, ond pan fydd y panel yn disgwyl i'r unigolyn cofrestredig ddatrys materion penodol neu gymryd camau gweithredu penodol cyn i'r gorchymyn gwahardd dros dro gael ei adolygu (er enghraifft, ymgymryd â thriniaeth ar gyfer cam-drin sylweddau), dylid rhoi canllawiau eglur yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn cofrestredig a'r dystiolaeth a allai fod yn ddefnyddiol i unrhyw banel adolygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylai'r paneli osgoi bod yn rhy benodol ac ni ddylent glymu na llesteirio disgresiwn panel adolygu yn y dyfodol.

### Pryd mae gorchymyn gwahardd dros dro yn briodol?

169. Mae gorchymyn gwahardd dros dro yn debygol o fod yn briodol pan fo pryderon difrifol nad oes modd eu datrys yn rhesymol drwy orchymyn amodau ymarfer, ond nad ydynt yn golygu bod angen dileu'r unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr.

170. Pan fydd panel yn ystyried gorchmynion gwahardd dros dro, dylai ystyried yn gyntaf a yw'r ymddygiad y canfyddwyd ei fod wedi'i brofi yn ymddygiad sydd yn sylfaenol anghydnaws â pharhau i fod yn gofrestredig. Rhoddir enghreifftiau o achosion o'r fath ym mharagraff 179. Gall fod angen gorfodi gorchymyn diarddel os bydd angen hynny ar gyfer diogelu'r cyhoedd a/neu ystyriaethau ynglŷn â buddiannau'r cyhoedd yn ehangach. Os felly, ni ddylai'r panel osod gorchymyn gwahardd dros dro, hyd yn oed pan geir rhai neu'r cyfan o'r ffactorau a restrir isod (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**):

- mae gan yr unigolyn cofrestredig fewnwelediad;
- mae'n annhebygol y bydd y materion yn cael eu hailadrodd; neu
- mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr unigolyn cofrestredig yn debygol o allu datrys neu gywiro eu ffaeleddau, yn enwedig mewn achosion lle mae'r unigolyn cofrestredig wedi dangos eu bod wedi dechrau gwneud hynny neu wedi rhoi esboniad credadwy o'r modd y byddant yn gwneud hynny.

**Am faint o amser dylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro?**

171. Dylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro am gyfnod penodol o hyd at flwyddyn. Wrth benderfynu am faint o amser y dylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro, rhaid i baneli sicrhau mai eu prif ystyriaeth ydy beth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau y caiff y cyhoedd eu diogelu. Dylai'r paneli ddilyn y dull o ystyried cymesuredd a amlinellir ym mharagraffau 24-31.

172. Er y gall gwaharddiadau dros dro fod â goblygiadau hirdymor i unigolyn cofrestredig (gan gynnwys cael eu diswyddo o'u swydd bresennol), gallant fod yn briodol pan fydd angen dychwelyd i ymarfer fesul cam. Er enghraifft, pan fydd yr unigolyn cofrestredig wedi ymgysylltu â'r broses yn flaenorol, a'u bod yn methu ag ymateb i amodau ymarfer a chydymffurfio â nhw ar hyn o bryd ond y gallent fod yn alluog i wneud hynny yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hynny, gallai cyfnod byr o waharddiad ganiatáu amser i'r unigolyn cofrestredig gyrraedd y man lle bydd panel adolygu yn gallu ystyried wedyn a ydynt yn addas i ymarfer gyda neu heb gyfyngiadau pellach.

173. Gallai dychwelyd i ymarfer fesul cam fod yn briodol mewn achosion sy'n ymwneud â dibyniaeth ar sylweddau, pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn ceisio neu'n derbyn triniaeth ar adeg y gwrandawiad (a bod y panel wedi derbyn tystiolaeth feddygol yn cadarnhau hynny). Os na fydd yr unigolyn cofrestredig wedi cyrraedd y cam lle mae'n ddiogel iddynt ddychwelyd i ymarfer, hyd yn oed os yw'r unigolyn cofrestredig dan sylw yn destun amodau ymarfer, gall dychwelyd fesul cam fod yn briodol. Yn yr achosion hynny, dylai'r panel egluro'n glir beth ydy diben y sancsiwn a pha ddisgwyliadau sydd ganddynt o'r unigolyn cofrestredig. Yn y gwrandawiad adolygu, gall y panel

benderfynu wedyn, os bydd addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer yn dal wedi'i amharu, pa sancsiwn pellach y bydd ei angen.

174. Gall gwaharddiadau byrdymor fod yn briodol hefyd mewn achosion lle nad oes risg o niwed yn parhau, ond lle mae angen sancsiwn mwy llym er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn iechyd a gofal.

175. Mae Erthygl 29(7)(b) Gorchymyn 2001 yn galluogi paneli i nodi lleiafswm (o hyd at ddeng mis) o amser lle bydd gorchymyn gwahardd dros dro ar waith cyn y gall yr unigolyn cofrestredig ymgeisio i'w amrywio, ei ddisodli neu ei ddileu. Dim ond mewn achosion lle mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod adolygiad cynharach yn annhebygol o fod o werth y dylai paneli ddefnyddio'r grym hwnnw.

## Gorchymyn diarddel

### Beth yw gorchymyn diarddel?

176. Mae gorchymyn diarddel yn dileu enw unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr ac yn gwahardd yr unigolyn cofrestredig rhag ymarfer eu proffesiwn.

177. Mae diarddel yn sancsiwn hirdymor. Mae Erthygl 33(2) Gorchymyn 2001 yn darparu, oni bai bod tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg, na fydd unigolyn yn cael gwneud cais i gael eu hadfer i'r Gofrestr o fewn pum mlynedd i ddyddiad gwneud gorchymyn diarddel, ac nid oes gan baneli'r pŵer i amrywio'r cyfyngiad hwnnw.

178. Nid oes modd gwneud gorchymyn diarddel mewn perthynas â honiad sy'n ymwneud â phryderon am alluogrwydd unigolyn cofrestredig neu eu gallu i reoli eu hiechyd oni bai bod yr unigolyn cofrestredig wedi bod dan waharddiad yn ddi-dor, neu'n destun gorchymyn amodau ymarfer, am gyfnod o ddwy flynedd ar ddyddiad y penderfyniad i'w diarddel. Nid yw gorchmynion interim yn cyfrif tuag at y cyfnod o ddwy flynedd.

### Pryd mae gorchymyn diarddel yn briodol?

179. Bydd gorchymyn diarddel yn briodol ar gyfer gweithredoedd difrifol, parhaus, bwriadol neu ddi-hid a allai gynnwys (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**):

- anonestrwydd;
- methiant i fynegi pryderon;
- methiant i weithio mewn partneriaeth;
- gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;
- ymddygiad sydd yn doriad difrifol ar ffiniau proffesiynol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, cydweithwyr a phobl eraill;

- camddefnyddio swydd broffesiynol, yn enwedig pan fydd unigolyn sy'n agored i niwed yn gysylltiedig;
- ymddygiad sydd yn rhywiol ei natur neu wedi'i gymell gan ryw;
- cam-drin plant yn rhywiol neu ddelweddau anweddus o blant;[19]
- cael eu cynnwys ar gronfa ddata troseddwyr rhyw;
- euogfarnau troseddol, rhybuddion a dedfrydau cymunedol am droseddau difrifol; a
- thrais sydd yn ddifrifol neu'n cael effaith niweidiol mewn modd arall ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

180. Mae gorchymyn diarddel yn debygol o fod yn briodol, p'un ai yw'r ymddygiad wedi'i gynnwys yn yr enghreifftiau o ymddygiad o'r fath yn y rhestr uchod ai peidio, pan fydd natur a difrifoldeb y pryderon yn golygu y byddai unrhyw sancsiwn llai yn annigonol ar gyfer diogelu'r cyhoedd, hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, a hyder y cyhoedd yn y broses rheoleiddio. Ymhlith enghreifftiau o ymddygiad o'r fath (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**), mae sefyllfaoedd lle mae'r unigolyn cofrestredig:

- heb fewnweledіad;
- yn parhau i ailadrodd y camymddygiad neu, pan fydd unigolyn cofrestredig wedi'u gwahardd am ddwy flynedd yn ddi-dor, yn methu â mynd i'r afael â diffyg galluogrwydd (er enghraifft, oherwydd nad ydynt wedi ceisio ymgysylltu ag unrhyw gamau cywiro); neu
- ddim yn fodlon datrys materion.

181. Mae gorchymyn diarddel yn cael effaith sylweddol ar unigolyn cofrestredig, ac felly pan fydd panel yn gosod gorchymyn diarddel, dylai ddarparu rhesymau clir a manwl dros wneud hynny, gan ei gwneud yn eglur pam roedd sancsiwn llai cyfyngol yn annigonol.

## Gorchmynion interim i gwmpasu'r cyfnod apelio

### Beth yw gorchymyn interim i gwmpasu'r cyfnod apelio?

182. Os bydd panel yn gosod gorchymyn amodau ymarfer, gorchymyn gwahardd dros dro, neu orchymyn diarddel, mae Erthygl 31 Gorchymyn 2001 yn rhoi'r pŵer yn ôl disgresiwn hefyd i'r panel osod gorchymyn amodau ymarfer interim neu orchymyn gwahardd dros dro interim i gwmpasu'r cyfnod apelio.

[19] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'delweddau anweddus o blant' yn cyfeirio at unrhyw ffotograffau neu ffug-ffotograffau anweddus neu ddelweddau o blant sydd wedi'u gwahardd.

183. Mae'r gorchmynion interim hyn yn wahanol i orchmynion interim a osodir i gwmpasu'r cyfnod nes bydd yr achos wedi'i gwblhau ac sy'n cael eu dirymu'n awtomatig yng ngham sancsiynau'r achos o sylwedd.

184. Nid yw sancsiynau a osodir gan baneli yn dod i rym tan 28 diwrnod ar ôl eu gosod neu, os bydd unigolyn cofrestredig yn apelio, nes bydd yr apêl wedi'i gwblhau neu ei ddirwyn i ben. I gwmpasu'r cyfnod hwnnw, lle gallai unigolyn cofrestredig ymarfer heb gyfyngiad fel arall, gall y panel osod gorchymyn amodau interim neu orchymyn gwahardd dros dro interim.

**Pryd mae gorchymyn interim yn briodol i gwmpasu'r cyfnod apelio?**

185. Mae'r pŵer i osod gorchymyn interim yn un i'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn, ac felly ni ddylai paneli ystyried ei fod yn ganlyniad awtomatig. Dylai'r panel ystyried yn ofalus a oes angen gorchymyn interim ai peidio a dylai roi cyfle i'r partïon annerch y panel gyda dadleuon ynghylch yr angen am orchymyn interim.

186. Mae'n debygol y bydd angen gorchymyn interim i gwmpasu'r cyfnod apelio mewn achosion lle:

- ceir risg ddifrifol sy'n parhau i ddefnyddwyr gwasanaethau neu i'r cyhoedd yn sgil diffyg gwybodaeth broffesiynol neu sgiliau'r unigolyn cofrestredig neu eu hymddygiad, neu broblemau iechyd nad ydynt yn cael eu rheoli; neu
- mae'r honiad mor ddifrifol y byddai hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn cael niwed difrifol petai'r unigolyn cofrestredig yn cael parhau i ymarfer heb gyfyngiadau.

## Sancsiynau niferus

187. Mae Erthygl 29 Gorchymyn 2001 yn darparu cyfres o sancsiynau â'u difrifoldeb yn cynyddu, a dim ond un sancsiwn ar y tro y gall paneli eu gosod, felly bydd yn anghyffredin iawn i unigolyn cofrestredig fod yn destun mwy nag un sancsiwn ar y tro. Fodd bynnag, petai'r sefyllfa honno'n codi, dylai'r paneli sicrhau bod hyd ac effaith pob un o'r sancsiynau yn eglur.

188. Dim ond mewn achosion lle bydd sancsiwn wedi'i osod mewn perthynas ag un honiad, a bod angen gosod ail sancsiwn mewn perthynas â honiad cwbl ar wahân a digyswllt y bydd unigolyn cofrestredig yn debygol o fod yn destun sancsiynau niferus.

189. Fodd bynnag, pan fydd yr ail honiad yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol, yna mae'n debygol mai cynnydd i sancsiwn mwy llym fydd y cam gweithredu mwyaf priodol:

- ailadrodd yr ymddygiad a fu'n sail i'r sancsiwn cyntaf;

- ymddygiad sy'n debyg o ran natur i'r pryderon blaenorol; neu
- torri'r sancsiwn cyfredol.

190. Yn yr achosion hyn, gallai'r sancsiwn mwy cyfyngol gael yr effaith o ddisodli'r sancsiwn llai cyfyngol, er enghraifft, bydd gorchymyn gwahardd dros dro yn disodli gorchymyn amodau ymarfer oherwydd nad yw'r unigolyn cofrestredig yn gallu ymarfer mwyach.[20]

[20] Byddai angen i'r panel wneud gorchymyn i ddod â'r sancsiwn cyfredol i ben.

## Gwrandawiadau adolygu

191. Mewn gwrandawiad adolygu, rhaid i'r panel ystyried yn gyntaf a yw addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer yn parhau wedi'i amharu. Dylai'r paneli ddilyn y canllawiau a amlinellir yn Nodyn Ymarfer HCPTS ar Adolygu gorchmynion sancsiynu Erthygl 30. Os bydd y panel yn penderfynu bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer yn parhau wedi'i amharu, yna dylai'r paneli ystyried y canllawiau a amlinellir yn y polisi hwn wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, i'w osod.

© Health and Care Professions Council 2026
20260302POLPUB